## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi unigolion yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i ymgymryd â'ch gweithgareddau gwaith yn unol â'u dewisiadau, anghenion, ac asesiadau risg. Mae hefyd yn cynnwys cyfrannu at nodi ac adrodd am unrhyw newidiadau o ran dewisiadau ac anghenion unigolion.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill i gefnogi unigolion yn y gymuned
2. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi’r gweithgareddau gwaith i’w cynnal yn y gymuned yn unol â dewisiadau, anghenion, a chynlluniau gofal neu gymorth unigolion
3. cael gafael ar asesiad risg ar gyfer gweithgareddau gwaith i gefnogi unigolion yn y gymuned
4. paratoi ar gyfer gweithgareddau gwaith i gefnogi unigolion yn y gymuned
5. cyflwyno eich hun a chadarnhau pwy yw'r unigolion neu'r bobl eraill rydych chi'n eu cefnogi yn y gymuned
6. ymgymryd â’ch gweithgareddau gwaith yn unol â dewisiadau, anghenion ac asesiadau risg unigolion
7. cefnogi unigolion ac eraill i roi adborth ar sut mae’r gweithgareddau gwaith sy’n cael eu cynnal yn y gymuned wedi cwrdd â dewisiadau ac anghenion yr unigolyn
8. rhoi adborth ar sut mae’r gweithgareddau gwaith sy’n cael eu cynnal yn y gymuned wedi cwrdd â dewisiadau ac anghenion yr unigolyn
9. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi arferion da a chytuno ar unrhyw newidiadau i weithgareddau gwaith i gefnogi unigolion yn y gymuned
10. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion yn y gymuned
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi unigolion yn y gymuned, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am anghenion cymorth unigolion yn y gymuned, a'i hadolygu
2. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y cymorth mae unigolion ei angen yn y gymuned
3. dylanwad diwylliant a chefndir ar anghenion cymorth unigolion yn y gymuned
4. sut mae cael gafael ar yr asesiadau risg ar gyfer unigolion, a'u dilyn
5. rôl asesiadau risg dynamig yn y gymuned
6. arferion gweithio ar eich pen eich hun mewn lleoliadau cymunedol
7. sut mae rheoli eich amser yn effeithiol wrth weithio yn y gymuned a ble i ofyn am gymorth gydag unrhyw faterion rheoli amser
8. rheoli adnoddau'n effeithiol wrth weithio yn y gymuned a phwysigrwydd arferion cynaliadwy
9. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi unigolion yn y gymuned
10. dulliau i gadarnhau pwy ydych chi, unigolion ac eraill, a pham fod hyn yn bwysig
11. sut mae cefnogi annibyniaeth unigolion yn eu bywyd bob dydd yn y gymuned
12. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion yn y gymuned
13. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn y gymuned
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a rhoi adborth ar y cymorth a roddir yn y gymuned
15. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar y cymorth a roddir yn y gymuned
16. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion yn y gymuned
17. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i gefnogi unigolion yn y gymuned
18. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi unigolion yn y gymuned
19. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi unigolion yn y gymuned
20. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion yn y gymuned
21. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gefnogi unigolion yn y gymuned

22. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi unigolion yn y gymuned, a sut i fynd i'r afael â hyn
23. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi unigolion yn y gymuned

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD229 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Cymuned, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |